# Adroddiad Arolygu

**Cylch Meithrin Aberystwyth**

**Canolfan Integredig Mudiad Meithrin**
**Boulevard De Saint Brieuc**
**Aberystwyth**
**SY23 1PD**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

**This report is also available in English**



## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

17/11/2021

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021.***
*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored.Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at y Tîm Polisi Gwybodaeth, Yr Archifau Gwladol, Kew, Llundain TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Mae'n rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Ynglŷn â Chylch Meithrin Aberystwyth

| | |
|---|---|
| Math o ofal a ddarperir | Gofal dydd plant<br>Gofal dydd llawn |
| Unigolyn cofrestredig | Alison Bradley |
| Lleoedd cofrestredig | 19 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad diwethaf gan Arolygiaeth Gofal Cymru | 25 Ionawr 2018 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu’r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Ydy. Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

Am fwy o wybodaeth ar sgoriau, gweler diwedd yr adroddiad hwn.

## Crynodeb

Mae plant yn hyderus ac yn hapus ac yn mwynhau eu hamser yng Nghylch Meithrin Aberystwyth. Mae ganddynt ymdeimlad braf o berthyn ac maent yn datblygu cydberthnasau a chyfeillgarwch cadarnhaol. Mae gan blant ddewis da ac maent yn gwneud penderfyniadau effeithiol am yr hyn y maent eisiau ei wneud. Mae rhyngweithiadau plant yn gynnes, ac maent yn mynegi brwdfrydedd a mwynhad yn eu gweithgareddau. Maent yn teimlo'n ddiogel ac wedi ymgartrefu, gan ffurfio perthynas glòs â'r staff gofal.

Mae’r staff gofal yn deall ac yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau i gadw plant yn ddiogel. Maent yn gymwys ac yn garedig tuag at y plant, gan ddarparu rhyngweithiadau cadarnhaol i sicrhau eu bod nhw'n teimlo fel eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn hapus. Mae staff gofal yn diwallu anghenion y plant yn llawn.

Mae'r plant yn derbyn gofal mewn amgylchedd diogel, glân a saff. Mae staff gofal wedi nodi a, chyn belled ag sy'n bosibl, wedi dileu risgiau diangen i blant. Mae digon o le a chyfleusterau i blant chwarae a dysgu. Mae'r amgylchedd yn hyrwyddo annibyniaeth plant ac mae wedi'i gynnal a'i gadw a'i addurno'n dda.

Mae'r bobl sy'n cynnal y lleoliad yn rheoli gwasanaeth trefnus. Maent yn sicrhau bod staff yn mynychu hyfforddiant a chyfleoedd datblygu'n weithredol. Maent yn rheoli prosesau recriwtio yn dda. Mae'r bobl sy'n cynnal y lleoliad yn trefnu staff gofal ac yn dilyn eu polisïau a gweithdrefnau yn dda er mwyn diwallu anghenion y plant. Mae partneriaethau yn dda iawn. Cymraeg yw'r brif iaith a ddefnyddir ac mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg. Rydym wedi gwneud dau argymhelliad ac mae'r rhain wedi'u rhestru yng nghefn yr adroddiad.

| **Llesiant** | **Da** |
|---|---|

Mae plant yn gyfforddus ac wedi ymlacio yn y lleoliad. Mae plant sy'n cyrraedd y lleoliad yn hyderus i adael eu rhieni. Mae eu ffrindiau yn eu cyfarch ac yn fuan maent yn ymuno â gweithgareddau chwarae. Mae'r plant wrth eu boddau ac yn mynegi brwdfrydedd a mwynhad. Er enghraifft, maen nhw'n dangos i ni sut maen nhw'n archwilio eu hardal chwarae ac yn gwneud dewisiadau am yr hyn maen nhw'n chwarae ag ef. Mae un plentyn yn dangos sut mae'n gwneud cacen gan ddefnyddio'r briciau glynu ac yna'n ei rhannu'n gyffrous â phlentyn arall: *"Cacen pen-blwydd i brawd ti."* Gwrandewir ar blant ac mae eu ceisiadau yn derbyn ymateb mewn modd amserol. Er enghraifft, yn ystod amser cinio bodlonwyd cais plentyn am fwy o ginio ar unwaith.

Mae plant yn gyfarwydd â threfniadau arferol ac mae hyn yn rhoi ymdeimlad o ddiogelwch iddynt. Maent yn golchi eu dwylo cyn bwyta unrhyw fwyd. Ar ôl eu chwarae rhydd, mae plant yn helpu i dacluso'r teganau ac yn canu *"Amser tacluso yw hi nawr".* Maent yn mynd at staff yn ddidrafferth i wneud ceisiadau, am gysur neu sicrwydd, ac i rannu storïau am eu teuluoedd. Mae rhyngweithiadau plant yn gadarnhaol ac maent yn derbyn canmoliaeth am eu cyflawniadau a'u hymdrechion. Mae plant yn gwrtais ac maent yn ymarfer dangos parch. Maent yn dysgu sut i rannu a chymryd eu tro yn dda. Er enghraifft, wrth chwarae y tu allan, mae plant yn cymryd eu tro ar y sleid ac ar y teganau i'w gyrru; chwaraeodd eraill am gyfnod hir, gan gymryd eu tro i ddychmygu eu bod yn sgwrsio ar y ffôn chwarae rôl.

Mae plant yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu, ac mae digon o weithgareddau i'w dewis. Mae plentyn wedi ymgysylltu wrth iddo edrych trwy'r lluniau o lyfr stori yn yr ardal ddarllen, tra bo eraill yn chwarae â'r blociau adeiladu, gan egluro, *"Fi'n adeiladu Dadi a Taid."* Maent yn symud yn rhydd o un ardal i'r llall pan fyddant yn dymuno chwarae â rhywbeth gwahanol. Mae plant yn datblygu eu dychymyg yn dda trwy chwarae rôl. Maent yn dechrau deall am garedigrwydd ac empathi. Er enghraifft, yn ystod amser cylch, mae'r plant yn eistedd ac yn gwrando'n ofalus ar stori am sut mae cyrff i gyd yn wahanol ac yn arbennig ac yn rhywbeth i'w ddathlu a bod yn falch ohono.

Mae plant yn meithrin eu sgiliau annibyniaeth yn dda. Maent yn rhoi eu heiddo personol ar begiau â dyfal barhad. Maent yn defnyddio cyfleusterau'r toiledau'n annibynnol ac yn golchi eu dwylo ar ôl gwneud. Mae gan blant lais cryf, gan ddewis dŵr neu laeth yn ystod amser byrbryd, ac maent yn helpu i ddewis pa stori yr hoffent ei chael ar gyfer amser cylch. Mae plant yn dysgu sut i wneud pethau drostynt eu hunain gydag anogaeth gadarnhaol gan staff.

| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
|---|---|

Mae’r staff gofal yn cydweithio'n dda iawn i ddiwallu anghenion plant yn effeithiol. Maent yn deall sut i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae’r staff gofal yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau effeithiol, ac maent wedi adolygu gweithdrefnau'r lleoliad yn unol â'r canllawiau sy'n ymwneud â COVID-19. Mae gan staff gofal drefniadau a hyfforddiant cadarn ar waith ar gyfer diogelu plant. Mae'r polisi diogelu yn nodi'n glir y weithdrefn i'w dilyn pan fydd staff gofal yn nodi pryder diogelu. Mae’r staff gofal yn dangos yn glir eu bod yn dilyn y weithdrefn a amlinellir yn y polisi yn gyson. Mae'r polisi diogelu yn cynnwys cyfeiriad at y ddyletswydd Prevent, ond nid yw staff gofal wedi mynychu hyfforddiant ar y ddyletswydd Prevent a radicaleiddio. Mae'r staff gofal yn derbyn yr hyfforddiant diweddaraf ar gymorth cyntaf pediatrig. Maent yn cynnal ymarferion tân rheolaidd, gan sicrhau bod pawb sy'n cymryd rhan yn gwybod sut i adael yr adeilad yn ddiogel mewn argyfwng.

Mae’r staff gofal yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau ar gyfer cadw plant yn ddiogel ac yn iach. Er enghraifft, maent yn sicrhau bod plant yn golchi eu dwylo cyn bwyta ac yn rhoi eu dwylo dros eu cegau wrth dagu. Mae trafodaethau â staff gofal yn dangos eu bod yn deall y polisi ymddygiad a bod strategaethau rheoli ymddygiad cyson ar waith. Maent yn ymyrryd yn briodol ac yn bwyllog pan fydd plant yn anghytuno. Mae staff gofal yn rheoli rhyngweithiadau mewn modd cynnes, cyfeillgar a thyner. Maent yn canmol plant am eu hymdrechion ag iaith gadarnhaol ac yn eu hannog i fod yn gwrtais a dweud *"os gwelwch yn dda"* a *"diolch"*. Mae’r staff gofal yn creu cyfnodau cymdeithasol i'r plant, gan gynnwys amser bwyd, ac maent yn enghraifft dda i'r plant gan eu bod yn siarad yn garedig ac yn parchu ei gilydd. Maent yn cynnig cyfleoedd i’r plant chwarae yn yr awyr iach yn rheolaidd. Dywedodd rhieni wrthym fod eu plant yn siarad yn uchel am y staff gofal.

Gwelsom staff gofal yn chwarae ochr yn ochr â'r plant ac yn annog rhyngweithio cadarnhaol. Mae’r staff gofal yn canmol y plant yn gyson ac yn eu hannog i chwarae a gweithio gyda'i gilydd. Maent yn gwrando ar farn plant ac yn eu parchu. Clywsom ryngweithio rhwng staff gofal a phlant yn dangos caredigrwydd a chynhesrwydd. Mae’r staff gofal yn gwrando'n astud ar storïau plant ac yn datblygu eu dealltwriaeth trwy eu holi’n briodol. Gwelsom staff gofal yn ymateb yn dyner i'r plant; maent yn eu cofleidio a’u hanwesu ac yn sicrhau eu bod yn diwallu eu hanghenion sylfaenol. Mae'r lleoliad yn darparu prydau bwyd iach wedi'u coginio gano asiantaeth allanol ar gyfer y mwyafrif o blant, tra bo’r unigolyn â gofal a’r staff gofal yn gweithio'n agos â'r rhieni eraill i annog y teuluoedd i ddarparu bocsys bwyd iach.

## Yr Amgylchedd **Da**

Mae'r amgylchedd yn ddiogel ac yn lân ac wedi'i gynnal a'i gadw'n dda, sy'n darparu man diogel a chyfforddus i'r plant ymlacio a dysgu ynddo. Mae'r lleoliad yn ddiogel ac o dan glo. Mae'r bobl sy'n cynnal y gwasanaeth yn cynnal amgylchedd da i wella profiadau'r plant. Mae'r bobl sy'n cynnal y lleoliad wedi nodi risgiau ac yn gweithredu i leihau neu ddileu'r rhain.

Mae asesiadau risg ar waith ac mae staff yn eu dilyn. Mae hyn yn sicrhau bod staff gofal yn ymwybodol o ran pa ardaloedd nad ydynt yn hollol ddiogel i'r plant, fel ardal y gegin. Mae'r staff gofal hefyd yn gwirio rhestri risgiau dyddiol, cofnodi gwiriadau cynnal a chadw, a chadw rhestr o ymwelyr i'r lleoliad. Ar ôl cyrraedd y lleoliad, roedd yn rhaid i ni lofnodi'r llyfr ymwelwyr a phrofi ein hunaniaeth. Mae gweithdrefnau argyfwng a mesurau tân a rheoli heintiau da ar waith.

Mae'r lleoliad yn addas iawn ar gyfer profiadau chwarae a dysgu plant, ac mae'r staff gofal yn gwneud defnydd da o'r ardaloedd hyn, gan gynnig profiadau amrywiol. Mae'r amgylchedd yn olau, yn llachar ac yn awyrog. Mae'r ffenestri ar agor i sicrhau awyru digonol. Yn y lleoliad, mae un ardal chwarae fawr â mynediad rhwydd at gyfleusterau toiledau. Mae yna ardal ddiogel i'r plant gael chwarae yn yr awyr agored. Mae gan ardaloedd chwarae a dysgu ddigon o adnoddau i sicrhau bod staff gofal yn gallu cynnig gweithgareddau ysgogol a chyffrous i'r plant.

Mae'r adnoddau, y teganau a'r llyfrau yn addas, yn lân ac mewn cyflwr da, gan alluogi staff i baratoi gweithgareddau yn hyderus. Mae'r bobl sy'n cynnal y lleoliad a'r staff gofal yn arddangos posteri Cymraeg lliwgar a phriodol a gwaith celf y plant. Mae hyn yn rhoi ymdeimlad o gyflawniad i'r plant. Mae'r teganau ac adnoddau yn cael eu storio ar lefel taldra y plant; mae hyn yn hyrwyddo annibyniaeth y plant wrth iddynt helpu eu hunain i'r eitemau hyn. Mae ystod eang o deganau ac adnoddau, sy'n cynnwys cegin chwarae rôl, tŷ dol, garej, blociau, traciau tren, llyfrau darllen, jig-sos, anifeiliad fferm a gweithgareddau gwau edau.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth Da

Mae'r bobl sy'n cynnal y lleoliad yn wybodus am arferion gofal plant presennol, ac mae hyn yn cael ei osod yn y datganiad o ddiben, sy'n hawdd i'w ddeall ac yn gynhwysfawr. Maent yn diweddaru eu polisïau a gweithdrefnau yn ôl yr angen ac yn eu rhannu â phob aelod o staff. Mae hyn yn sicrhau bod pawb yn gyfarwydd â'r holl brosesau i'w dilyn.

Mae'r unigolyn â gofal yn tynnu lluniau rheolaidd o'r plant yn cymryd rhan yn eu gweithgareddau. Mae’n cadw ffotograffau o waith plant mewn llyfrau lloffion, sy'n cael eu hanfon adref at y rhieni pan fydd y plant yn pontio i'r ysgol gynradd leol. Fodd bynnag, nid oes cynllunio ffurfiol ar gyfer tasgau â ffocws neu weithgareddau ar gyfer y meysydd dysgu. O ganlyniad, nid oes cofnod myfyrio ffurfiol o arsylwi a gwerthuso dealltwriaeth y plant a phenderfynu ar y camau nesaf.

Mae’r staff gofal yn hapus yn eu swyddi ac yn ymwybodol o'r strwythur rheoli, ac maent yn gwybod â phwy i gysylltu os oes angen help arnynt. Dywedodd rhieni wrthym fod staff gofal yn gyfeillgar a phob tro yn barod eu cymwynas. Mae adolygiad cyflawn o ansawdd y gofal ar waith, sy'n ystyried barn defnyddwyr y gwasanaeth ac yn nodi ffyrdd ar gyfer datblygu yn y dyfodol. Mae’r broses o recriwtio staff gofal yn gadarn. Gwnaethom edrych ar ffeiliau staff gofal a chanfod bod yr holl wiriadau wedi'u gwneud i sicrhau eu bod yn addas i weithio gyda phlant, gan gynnwys gwiriadau cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Roedd y staff gofal a oedd yn bresennol yn ystod yr arolygiad yn cydweithio'n dda fel tîm, ac roedd pob un ohonynt yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau ac yn arwain y plant yn briodol. O ganlyniad, mae plant wrth eu boddau â'r gofal a ddarperir gan staff brwdfrydig.

Mae'r bobl sy'n cynnal y lleoliad yn cynnal sesiynau goruchwylio rheolaidd ac ystyrlon sy'n cefnogi’r staff gofal â'u rôl, eu dysgu a'u datblygiad, ac unrhyw broblemau perfformiad a all godi. Mae'r unigolyn â gofal yn trefnu staff yn briodol i oruchwylio tasgau a gweithgareddau yn effeithiol a darparu cymorth i'r plant. Mae trefniadau wrth gefn effeithiol ar gyfer absenoldebau staff.

Mae perthynas gadarnhaol â rhieni a gweithwyr proffesiynol eraill, ac mae hyn yn cyfrannu at lesiant y plant gan fod y rhieni yn dweud wrth staff beth mae eu plant wedi'i fwynhau'n arbennig. Dywedodd rhieni wrthym eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth. Gall rhieni siarad â staff am ofal eu plentyn pan fyddant yn dod â'u plant neu'n eu casglu. Mae'r rhieni hefyd yn derbyn cylchlythyr bob tymor ac adroddiad cynnydd bob tymor. Mae'r bobl sy'n cynnal y lleoliad yn cadw cofnod o ddigwyddiadau a damweiniau ac yn rhannu'r rhain â'r rhieni. Mae gweithgareddau codi arian yn digwydd yn rheolaidd ar gyfer y lleoliad. Roedd y digwyddiadau diweddar yn cynnwys ocsiwn ar-lein, taith gerdded noddedig a chystadleuaeth bwmpen.

**Argymhellion i fodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol**

A1. Yr holl staff i gwblhau'r hyfforddiant ar 'ddyletswydd radicaleiddio Prevent'

A2. Cwblhau a chofnodi cynllunio ffurfiol ar gyfer gweithgareddau a chynnwys elfen o fyfyrio ar arsylwi a gwerthuso dealltwriaeth y plant a phenderfynu ar y camau nesaf

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a bydd yn cael ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac fe'i cyflawnwyd. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan fo canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, yn cael eu nodi drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu â chymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwelliant a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella |
|---|

| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
|---|---|---|
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

| Sgoriau | Ystyr y sgoriau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Dyma wasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Dyma wasanaethau sydd â chryfderau ac sydd heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau a lle mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Pan fydd gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn dyroddi hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad cyhoeddi** 10/01/2022'